**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-791
Ein cyf/Our ref VG/02792/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

21 Tachwedd 2017

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref ynghylch Deiseb P-05-791 gan Nick Harding ar ddiddymu contractau parcio preifat yn ysbytai Cymru.

Nodaf y materion a godwyd yn y ddeiseb.

Ers 1 Ebrill 2008, mae cyfleusterau parcio ceir ar holl safleoedd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru wedi cael eu darparu am ddim, ac eithrio pan fydd contractau parcio preifat yn weithredol. Nid dyma yw'r sefyllfa yn Lloegr. Pan oedd contractau allanol ar waith ar yr adeg honno, gofynnwyd i sefydliadau'r GIG leihau costau tan i'r contractau ddod i ben. Ystyriwyd bod y gost a oedd ynghlwm â thynnu'n ôl o gontract yn rhy uchel.

Mae contract allanol ar gyfer parcio ceir yn weithredol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, a daw i ben ym mis Mawrth 2018. Wedi hyn, bydd hi am ddim i barcio ar y safle. Dyma un o ddim ond tri ysbyty yng Nghymru sy'n dal i godi tâl am barcio ceir, a daw yr holl gontractau allanol i ben yn 2018.

Ysbyty Athrofaol Cymru yw'r ysbyty fwyaf yng Nghymru, ac mae 16,000 o gerbydau'n dod i'r safle bob dydd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno mesurau i reoli'r sefyllfa parcio ceir ar y safle. Cafodd hyn ei wneud am resymau gweithredol, ac i atal achosion o barcio'n anghyfreithiol, ac i sicrhau bod cerddwyr yn ddiogel, a bod mynediad addas i gerbydau brys.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pan fydd y contract allanol yn dod i ben yn 2018 yn Ysbyty Athrofaol Cymru, a bydd parcio am ddim i gleifion, staff ac ymwelwyr, bydd yn dal angen i'r Bwrdd Iechyd reoli'r sefyllfa barcio o ddydd i ddydd. Bydd yn dal i fod angen mesurau gorfodi priodol ar gyfer achosion o barcio'n anghyfreithiol a chamweddau tebyg. Gan y bydd hi am ddim i barcio, bydd hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y rheini sy'n parcio ar y safle yn defnyddio'r ysbyty.

Mae'r achosion a aeth i'r llys yn cynnwys nifer o ffioedd parcio a oedd yn ddyledus gan staff dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi iddynt barcio'n anghyfreithiol neu mewn modd peryglus. Rwy'n cael ar ddeall bod 98% o staff yn cydymffurfio â'r trefniadau parcio ar y safle.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services